



**Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r ffurflen gwrandawiadau pledio a pharatoi ar gyfer treial (fersiwn bapur - PTPH2) i'w defnyddio o'r 22<sup>ain</sup> o Orffennaf 2019 ymlaen ar gyfer gwrandawiadau PTPH o'r 29<sup>ain</sup> Orffennaf 2019 ymlaen**

---

**1. Un tabl 'Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys'**

- Erbyn hyn mae un tabl 'Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys' sydd i'w weld yn gynnar yn adran y gorchmynion barnwrol, ond y dylai pob parti gyfrannu ato.

**2. Newidiadau i wybodaeth a ddarparwyd gan yr erlyniad**

- Mae blwch Dyddiad Anfon wedi'i ychwanegu at dabl manylion y diffynnydd i'w gwblhau gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
- Ychwanegwyd cwestiwn ychwanegol at yr Wybodaeth gan yr Erlyniad ar gyfer y PTPH: 'A ddarparwyd Dogfen Reoli Dadlennu?'
- Mae'r tabl 'Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys' wedi cael ei symud i'r adran farnwrol ar y ffurflen; mae angen i'r erlyniad lenwi rhannau o'r tabl.

**3. Newidiadau i wybodaeth a ddarperir gan yr amddiffyniad**

- Mae'r ddau gwestiwn sy'n ymwneud â thrawsdatgelu bellach wedi'u hepgor gan fod adran am droseddau gydag mwy nag un diffynnydd ar gael.
- Gofynnir rhagor o gwestiynau i'r amddiffyniad ac maent wedi cael eu haildylunio hefyd. Mae'r cwestiynau ychwanegol yn ymwneud yn bennaf â materion datgelu ac adnabod diffynnyddion sy'n ifanc, sy'n agored i niwed neu sy'n dioddef o gaethwasiaeth fodern fel y gellir gwneud gorchmynion neu ymchwiliadau priodol yn y PTPH.
- Mae'r tabl 'Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys' wedi cael ei symud i'r adran farnwrol ar y ffurflen. Mae angen o hyd i'r amddiffyniad lenwi rhannau o'r tabl hwn. Yn ogystal â hynny, mae tabl "Gwyddys pwy yw'r Cyfryngwyr yn y Gwrandawriad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial" oddi tano ac mae'n rhaid iddynt lenwi hwnnw hefyd os yw'n hysbys yn y PTPH y bydd gan dyst neu ddiffynnydd ganolwr fel y gellir ystyried argaeledd y cyfryngwr wrth bennu dyddiad ar gyfer y treial.
- Mae modd i'r erlyniad nodi ar y ffurflen a yw Dogfen Rheoli Datgeliadau (DMD) wedi'i chyflwyno ac, os felly, dylai'r amddiffyniad ddangos a yw'r gwasanaeth DMD yn ddigonol ac os nac ydy, egluro pam mai felly y mae? Ceir darpariaeth hefyd ar gyfer yr amddiffyniad i nodi llinellau holi rhesymol a nodi'r hyn y maent yn ei ddweud yw "lefel briodol yr wybodaeth y dylid ei thynnu" o ddyfeisiau symudol a chyfrifiaduron.

**4. Cynnwys wedi'i ddiweddarau**

- Mynegir rhai cyfarwyddiadau barnwrol yn wahanol er mwyn ymdrin â newidiadau yn y gyfraith neu arfer a wnaed ers cyflwyno'r ffurflen PTPH wreiddiol.
- Mae adran 28 wedi'i chategoreiddio, gyda chyfarwyddiadau gwahanol ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a thystion dan fygythiad. Ceir adran newydd sylweddol hefyd ar gyfer diffynnyddion sy'n agored i niwed.

**5. Aildrefnu adrannau i fod yn haws eu defnyddio**

- Mae'r adrannau wedi'u trefnu'n fwy rhesymegol, er enghraifft mae dyddiad y treial bellach wedi'i bennu cyn unrhyw wrandawiadau canolradd.

**6. Rhagor o wybodaeth**

- Dylai defnyddwyr gyfeirio at y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol a'r Better Case Management Handbook 2018 am ragor o wybodaeth am y ffurflen PTPH.

10 Gorffennaf 2019